

2013 Rhif 50 (Cy. 10)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor
Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd
Pont Briwet) 2011 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Offeryn Cadarnhau hwn yn cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011, a wnaed gan Gyngor Gwynedd ar 18 Hydref 2011. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu pont ffordd dros aber Afon Dwyryd i'r de o Benrhyndeudraeth, Gwynedd.

2013 Rhif 50 (Cy. 10)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013

Gwnaed 16 Ionawr 2013

Yn dod i rym 31 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾.

Enw

1. Enw'r offeryn hwn yw Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013.

Cadarnhau'r Cynllun

2. Drwy hyn, mae Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") wedi ei gadarnhau heb ei addasu.

Y Cynllun

3. Mae'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd wedi ei nodi yn yr Atodlen i'r offeryn hwn ac mae copïau o'r Cynllun ynghyd â'r planiau sy'n mynd gydag ef wedi eu hadneuo yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

⁽¹⁾ 1980 p.66. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.

Cychwyn

4. Daw'r Cynllun yn weithredol ar y dyddiad pryd y cyhoeddir gyntaf, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Priffyrdd 1980, hysbysiad ei fod wedi ei gadarnhau.

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau, Trafnidiaeth
o dan awdurdod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a
Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

16 Ionawr 2013

**YR ATODLEN I
OFFERYN CADARNHAU CYNLLUN CYNGOR
GWYNEDD (ADEILADU PONT FFORDD PONT
BRIWET) 2011 2013**

**Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd
Pont Briwet) 2011**

Mae Cyngor Gwynedd (a elwir ar ôl hyn fel “y
Cyngor”) yn gwneud y Cynllun hwn drwy ymarfer ei
bwerau o dan Adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980
a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi i wneud hynny.

1. Mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi i adeiladu,
dros ddŵr mordwyo Afon Dwryd, y bont
ffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Cynllun,
fel rhan o'r briffordd y mae'n bwriadu ei
adeiladu o Ystâd Ddiwydiannol Cookes,
Penrhyndeudraeth i Landecwyn yn sir
Gwynedd.
2. Gelwir y Cynllun yn Gynllun Cyngor
Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet)
2011.

YR ATODLEN I'R CYNLLUN

**CYNLLUNIAU A MANYLEBION PONT
FFORDD PONT BRIWET**

Dangosir lleoliad a dyluniad cyffredinol y bont ar y
cynlluniau rhifau G110013/200, G110013/210 a
G110013/211 ac sydd wedi'u marcio “Cynllun Cyngor
Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011”
ond gan eithrio'r bont reilffordd arfaethedig. Mae'r
bont yn ymgorffori ffordd, llwybr cerdded a llwybr
beicio.

Pwyntiau dechrau a diwedd

O bwynt ar Ochr Ogleddol Aber Afon Dwryd sydd â
chyfesurynnau 261897.7Dw, 338335.2Gg at bwynt ar
yr Ochr Ddeheuol sydd â chyfesurynnau 261913.8Dn,
338212.5Gg. Cyfeirnod map Arolwg Ordnans
SH63NW. Bydd y bont fwy neu lai ar safle pont
ffordd a rheilffordd y Bont Briwet bresennol, a fydd
yn cael ei dymchwel.

Bwâu

Cyfanswm o 120 metr mewn chwe bwa, pob un yn 20
metr o hyd.

Lled

Mae dec y ffordd tua 9.1 metr o led gydol ei hyd.

Lle o dan y bont

Yn seiliedig ar farc dŵr uchel cymedrig ar lanw mawr o tua 1.8 metr uwch datwm ordnans, mae tua 2.6 metr o le rhwng y dŵr a'r bont ger ategwaith y bont i'r de a'r gogledd a 3.1 metr ger canol y bont.

Y Ddyfrffordd – Aber Afon Dwyrdd

Mae'r brif sianel modrwyo ger y bont tua 120m o led. Mae'r afon yn lledu'n sylweddol i fyny ac i lawr yr lawr gan fod yna sarnau ar ddwy ben y bont sy'n culhau sianel yr afon. Bydd y sarnau presennol yn cael eu lledu ond nid eu hymestyn, felly bydd y ddyfrffordd yn aros yr un fath.

Cyflawnwyd fel Gweithred ar y 18fed diwrnod hwn o Hydref 2011 drwy osod Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd

Ym mhresenoldeb:

Llofnodydd Awdurdodedig